# BUDDIANNAU AELODAU – DATGANIADAU A PHLEIDLEISIO

1. Yn ei gyfarfod diwethaf, gofynnodd y Pwyllgor am arweiniad ynghylch y rheolau ar ddatgan buddiannau Aelodau ac ar bleidleisio.

## DATGANIADAU: RHEOL SEFYDLOG 4.5

2. Amgaeir dyfyniad o Ganllaw y Cynulliad ar Fuddiannau Aelodau. Mae’r Canllaw yn ategu’r hyn a geir yn y Rheol Sefydlog, yn rhestru’r gofynion ychwanegol y mae’r Cynulliad ei hun wedi penderfynu arnyn nhw ac yn cynnig cyngor ar sut i ateb y gofynion. Tynnir sylw’r aelodau at baragraffau 2.4 a 2.5 sy’n ymdrin yn benodol â chwestiynau ynghylch pryd? a pha mor aml?

3. Rydym wedi siarad â Seneddau San Steffan a’r Alban a gweld bod eu trefniadau yn hyn o beth yn debyg iawn i’n rhai ni.

4. Gofynnwyd hefyd ynghylch union eiriad y datganiad a pha mor fanwl ddylai fod. Hynny yw, a wnaiff dweud "rwy’n ffermwr" neu "mae gennyf fuddiant ariannol, gweler y manylion ar y gofrestr" y tro neu a oes eisiau mwy o fanylion? Dywed y canllawiau y dylai’r datganiad fod yn ddigon manwl i’r gwrandawr ddeall natur y buddiant sy’n cael ei ddatgan. Nid yw’n ddigon dweud "Mae gennyf fuddiant yn y mater sy’n cael ei drafod". Rhaid i’r datganiad ddisgrifio natur y buddiant. Er enghraifft, "rwy’n ffermwr" neu "rwy’n berchen ar dy yn yr ardal mae’r cynllun dan sylw yn effeithio arni" neu "rwy’n aelod o fwrdd un o’r cyrff y bydd y penderfyniad hwn yn effeithio arnynt." Os oes gan aelod fwy nag un budd, yna rhaid datgan bob un ee "Rwy’n ffermwr, bydd y cynllun yn effeithio ar fy nhir a bydd hefyd yn effeithio ar dy rwy’n berchen arno y mae fy rhieni yn byw ynddo".

5. Er nad oes eisiau ffurf bendant ar eiriau cyn belled â bod y datganiad yn glir, fe allai’r Aelodau ddefnyddio’r canlynol fel rhywfath o fodel:

"Gadeirydd (*neu Mr Llywydd gan ddibynnu ar y sefyllfa*), hoffwn ddatgan buddiant yn y mater sy’n cael ei drafod. Rwy’n ffermwr, bydd y cynllun yn effeithio ar fy nhir a bydd hefyd yn effeithio ar dy rwy’n berchen arno y mae fy rhieni yn byw ynddo".

Yn y pen draw fodd bynnag, mater i’r Aelodau benderfynu arno yw p’un ai i gynnig mwy o fanylion a/neu ddefnyddio’r ffurf safonol neu beidio.

Argymhelliad

6. Mae’n amlwg bod eisiau canllawiau manylach a thynnu sylw Aelodau at eu bodolaeth. Cyn

belled â bod y Pwyllgor yn cymeradwyo hynny, mae'r Ysgrifenyddiaeth yn argymell bod nodyn yn cael ei anfon at Aelodau (daw nodiadau fel arfer o swyddfa Clerc y Cynulliad) cyn gynted â phosib. Nid ydym yn argymell newid y Canllawiau a fabwysiadwyd ar hyn o bryd, ond gweler para. 10 isod.

**PLEIDLEISIO: RHEOL SEFYDLOG 4.7**

7. Mae'r Aelodau wedi gofyn am esboniad o'r sefyllfa o ran pleidleisio, yn enwedig gan Aelodau Pwyllgorau, ar faterion y mae gan Aelodau fuddiant ariannol ynddynt. Amgaeir dyfyniad o Ganllaw'r Cynulliad ar Fuddiannau Aelodau. [Er mwyn darlunio'r sefyllfa, rydym yn defnyddio ffermwyr fel enghraifft yn y testun isod, ond mae ein sylwadau yr un mor berthnasol i unrhyw broffesiwn, budd neu ddosbarth o bobl.]

8. Mae dau gwestiwn i'w hystyried. Y cyntaf yw a yw'r mater y mae'r Pwyllgor yn pleidleisio arno yn gofyn am benderfyniad a allai effeithio ar y buddiant y bu'n rhaid ei gofrestru neu ei ddatgan o dan yr Atodiad i'r Rheol Sefydlog. Buddiannau ariannol yw'r rhain gan amlaf ond nid bob tro. Nid yw pob mater mae'r Pwyllgor neu'r Cynulliad yn penderfynu arno yn golygu penderfyniad sy'n effeithio ar fuddiant ariannol. Gellid ystyried bod argymhelliad bod Ysgrifennydd Cynulliad neu'r Cynulliad yn cymryd cam penodol (ee mabwysiadu cynllun ar gyfer rhoi nawdd i amaethyddiaeth), o leiaf yn ogwydd i roi pwysau arno i wneud penderfyniad i gymryd cam o'r fath. Ni fyddai mynegiant cyffredinol o farn am faterion amaethyddol yn bwysau o'r fath.

9. Yr ail gwestiwn yw a fyddai penderfyniad yn "arwain at fantais ariannol uniongyrchol i'r Aelod a fyddai'n fwy na'r fantais a allai ddod i ran y personau y byddai'r penderfyniad yn effeithio arnynt yn gyffredinol". Dyma agwedd anoddaf y ddarpariaeth. Y mater anodd yn hyn o beth yw penderfynu pwy yw'r personau "y byddai'r penderfyniad yn effeithio arnynt yn gyffredinol". Pe bai'n golygu "pobl Cymru", yna ni allai'r ffermwr bleidleisio ar fater sy'n effeithio ar incwm ffermwyr. Nid yw'n debygol felly mai hynny yw ystyr y rheol sefydlog. Mae'n rhaid mai ystyr "y personau y byddai'r penderfyniad yn effeithio arnynt yn gyffredinol" yw'r dosbarth hwnnw o bobl y mae'r penderfyniad penodol yn effeithio arnynt ee ffermwyr, ffermwyr godro, ffermwyr mewn ardal lle mae cynllun amaeth-amgylcheddol ar y gweill ac ati. Wedi clustnodi'r dosbarth, yna'r cwestiwn i'w ofyn yw a fydd yr Aelod yn debygol o gael mwy o fanteision ariannol na'r dosbarth yn gyffredinol. Er enghraifft, fe allai Aelod sy'n ffermwr fod mewn sefyllfa neilltuol o dda i elwa ar gynllun arfaethedig. Byddai hynny'n ddigon i'w wahardd rhag pleidleisio ar mater sy'n ymwneud â'r cynllun.

**Argymhelliad.**

10. Nid oes ateb clir i bob sefyllfa. Fe all fod yn anodd i Aelod fod yn gwbl siwr, wrth bleidleisio, pa ddosbarth o bobl y bydd y penderfyniad yn gyffredinol yn effeithio arno ac a fyddai'r Aelod yn debygol o elwa'n ariannol yn fwy nag aelodau'r dobsarth hwnnw o bobl yn gyffredinol. Yn y

tymor hwy, rydym yn **argymell** y dylai'r Pwyllgor ystyried yr angen am baratoi esboniad o ofynion rheol sefydlog 4.7 a sut i'w cymhwyso. Rydym yn **argymell ymhellach** fod y Pwyllgor, fel rhan o'i arolwg blynyddol ac yn y pen draw, ei adroddiad i'r Cynulliad, yn ystyried rheol sefydlog 4 yn ei chyfanrwydd a chanllawiau cysylltiedig y Cynulliad.

11. Yn y tymor byr, rydym yn **argymell** bod yr Aelodau yn cael mwy o wybodaeth am bleidleisio gan ymgorffori'r cyngor sylfaenol canlynol:

> a) Ni ddylech bleidleisio os gallai'r penderfyniad ddod â mantais ariannol uniongyrchol ichi sy'n "fwy na'r fantais a allai ddod i ran y personau y byddai'r penderfyniad yn effeithio arnynt yn gyffredinol".
>
> b) Fe gewch chi bleidleisio felly os ydych yn fodlon mai dim ond mantais anuniongyrchol fyddai unrhyw fantais a ddeuai i'ch rhan; dyna fyddai'r sefyllfa os mai aelod o'ch teulu fyddai'r unig un i gael mantais uniongyrchol
>
> c) Hyd yn oed pe caech fantais uniongyrchol, fe gaech bleidleisio oni bydd y fantais a gaech yn fwy na'r fantais a gâi'r bobl yr effeithid arnynt. Mae'n anodd dehongli hwn yn union a'r unig gyngor diogel yw "os nad ydych yn siwr, peidiwch â phleidleisio".

**Casgliad**

12. Gwahoddir y Pwyllgor i gytuno ar yr argymhellion ym mharagraffau 6, 10 ac 11.

***Ysgrifenyddiaeth***

**Dyfyniad o'r Canllaw ar Fuddiannau Aelodau, a fabwysiadwyd gan y Cynulliad ar x Mai 1999**

## Datgan Buddiannau

"9. Yn ôl y rheolau sefydlog, cyn cymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad, mae'n **ofynnol** i Aelodau ddatgan ar lafar unrhyw fuddiant sydd ganddynt neu y gellid disgwyl a fyddai ganddynt ac a restrir yn yr Atodiad i'r rheolau sefydlog, os yw'r buddiant yn destun yn y mater a drafodir. Y prif bolisi y tu ôl i'r angen am ddatgan buddiant yw sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd yn ymwybodol o bob buddiant ariannol neu fuddiant arall y gellid yn rhesymol meddwl eu bod yn berthnasol i'r trafodion y bydd yr Aelod am siarad ynddynt. Byddai cymryd rhan yn y trafodion heb ddatgan y buddiannau perthnasol cyfredol a allai fod gan Aelod fel y'u rhestrir yn yr atodiad i'r rheolau sefydlog, yn drosedd o dan adran 72(6)(a) Deddf Llywodraeth Cymru. Rhoddir ystyriaeth fanylach i ddatganiadau buddiant yn Adran II.

10. Yn ogystal, mae'r Cynulliad wedi penderfynu y dylai'r Aelodau ddatgan y math o fuddiannau y cyfeirir atynt yn adran 72 Deddf Llywodraeth Cymru ac yn rheol sefydlog 4. Mae'r Cynulliad wedi penderfynu hefyd bod buddiannau anuniongyrchol Aelodau mewn materion a restrir yn Atodiad A rheolau sefydlog y Cynulliad neu mewn materion o'r math hwnnw yn cael eu datgan yn unol ag adran 72 Deddf Llywodraeth Cymru a rheol sefydlog 4.1 os byddai'n rhesymol i eraill sy'n gwybod am y buddiant feddwl y gallai ddylanwadu ar weithredoedd yr Aelod yn y Cynulliad. Ni fyddai cymryd rhan yn y trafodion heb gofrestru'r buddiannau ychwanegol hyn yn drosedd ond fe allai fod yn destun cwyn i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad (trwy'r Llywydd) o dan reol sefydlog 16.1(i). "

## II DATGAN BUDDIANNAU AELODAU

2.1 Dylai Aelodau gyfeirio at reol sefydlog 4.5.

### Buddiannau Cyfredol a Photensial

2.2 Mae'r rheol sefydlog ynghylch datgan buddiant yn ehangach ei chwmpas na'r rheolau sefydlog sy'n ymwneud â chofrestru buddiannau. Yn ogystal â buddiannau cyfredol (hy y rheini ar y gofrestr bresennol neu fuddiannau a gafwyd yn y pedair wythnos diwethaf), mae gofyn i Aelod ddatgan buddiannau *y gallent ddisgwyl eu cael*.

2.3 Fe allai buddiannau y gallent ddisgwyl eu cael fod yn sylweddol fwy na'u buddiannau cyfredol ac mae'n rhaid felly bod yn onest yn hyn o beth. Lle bo Aelod, er enghraifft, yn trafod is-ddeddfwriaeth neu'n gwneud sylw ar fater y gallai'r Aelod yn rhesymol ddisgwyl elw ohono, rhaid ei ddatgan. Wrth benderfynu a yw darpar fuddiant yn ddigon 'pendant' i gyfiawnhau datganiad, y gair allweddol yn y rheol y mae'n rhaid i Aelod ei gadw mewn cof yw "disgwyl". Lle bo cynlluniau'r Aelod neu ei ymwneud yn y prosiect wedi tyfu o fod yn obaith anelwig i fod yn ddisgwyliad rhesymol y câi fantais gofrestradwy, yna dylid gwneud datganiad yn esbonio'r sefyllfa. Lle bo'n fuddiant y mae angen gwneud datganiad arno cyn siarad, dylai Aelodu

sicrhau eu bod hefyd yn cydymffurfio â’r rheolau ar bleidleisio (rheol sefydlog 4.7). Nid yw peidio â gwneud datganiad am ddarpar fuddiant yn drosedd o dan y Ddeddf, ond fe all fod yn destun cwyn i’r Pwyllgor Safonau o dan reol sefydlog 16.1.

**Perthnasedd**

2.4 Cyfrifoldeb yr Aelod yw penderfynu a yw buddiant yn ddigon perthnasol i’r trafodion penodol i deilyngu datganiad ai peidio. Mae trafodion o’r fath, yn ogystal â thrafodaethau yn y Cynulliad, yn cynnwys trafodaethau mewn pwyllgorau a chyfarfodydd pwyllgorau lle clywir tystiolaeth. Dylid datgan buddiant os yw’r atodiad i’r rheolau sefydlog ei gwmpasu a’i bod yn rhesymol i eraill feddwl y gallai ddylanwadu ar yr araith, sylw neu gyfathrebiad **o dan sylw**. Dylai fod digon o wybodaeth mewn datganiadau er mwyn i’r gwrandawr allu deall natur buddiant yr Aelod.

2.5 Mewn trafodaeth yn y Cynulliad, dylai Aelod ddatgan ei fuddiant yn gryno ar ddechrau ei araith. Mewn Pwyllgorau, dylai Aelodau ddatgan buddiannau perthnasol y tro cyntaf y byddant yn annerch y Pwyllgor. Nid oes angen ailadrodd y datganiad mewn cyfarfodydd dilynol o’r pwyllgor, ac eithrio pan fydd yr Aelod yn siarad am fater y mae’r buddiant yn neilltuol o berthnasol iddo. Mater i’r Aelod benderfynu arno yw hyn.

**Pleidleisio**

Mae Rheol Sefydlog 4.7 yn disgrifio’r cyfyngiadau ar hawl Aelod i bleidleisio oherwydd ei fuddiannau. Fe ddywed:

‘Pan fydd gan Aelod fuddiant y mae’n ofynnol ei gofrestru neu ei ddatgan o dan y rheol sefydlog hon, ni fydd yn pleidleisio ar fater mewn unrhyw un o drafodion y Cynulliad os gallai penderfyniad penodol, mewn perthynas â’r buddiant hwnnw, arwain at fantais ariannol uniongyrchol i'r Aelod a fyddai'n fwy na'r fantais a allai ddod i ran y personau y byddai'r penderfyniad yn effeithio arnynt yn gyffredinol. ‘

Mae Canllawiau’r Cynulliad ar Fuddiannau Aelodau yn dweud:

11. O dan reol sefydlog 4.7, ni chaniateir i Aelodau’r Cynulliad fwrw pleidlais ar fater os bydd y penderfyniad y pleidleisir arno yn debygol o arwain at fantais **ariannol uniongyrchol** i’r Aelod a fyddai’n **fwy** na’r fantais a allai ddod i ran y personau y byddai’r penderfyniad yn effeithio arnynt yn gyffredinol. Fel arall, gall Aelodau bleidleisio yn nhrafodion y Cynulliad cyn belled â’u bod wedi gwneud y datganiadau llafar sy’n ofynnol. Mae peidio â chydymffurfio â rheol

sefydlog 4.7 ar y mater hwn yn drosedd o dan Adran 72(6)(a) Deddf Llywodraeth Cymru. Rhoddir ystyriaeth fanylach i bleidleisio yn Adran III.

**III. CYFYNGIADAU AR BLEIDLEISIO**

3.1 Mae rheol sefydlog 4.7 yn gwahardd Aelodau rhag pleidleisio mewn amgylchiadau penodol iawn. "Ni fydd Aelod yn pleidleisio ar fater mewn unrhyw un o drafodion y Cynulliad os gallai penderfyniad penodol arwain at *fantais ariannol uniongyrchol i'r Aelod a fyddai'n fwy na'r fantais a allai ddod i ran y personau y byddai'r penderfyniad yn effeithio arnynt yn gyffredinol.* ' Byddai hynny'n golygu, er enghraifft, na chaiff aelod sy'n berchen ar fferm ei wahardd rhag pleidleisio ar faterion amaethyddol. Fodd bynnag, pe bai penderfyniad ar fater amaethyddol yn arwain at roi mantais ariannol i'r Aelod sy'n fwy na'r fantais a ddaw i ran ffermwyr yn gyffredinol, yna gwaherddid yr Aelod rhag pleidleisio ar y mater hwnnw. Unwaith eto, mater i'r Aelod benderfynu arno yw hyn.